| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 2. Y *'Kardomah Gang'*: Gwahoddiad |
| Disgrifiad: | Creu gwahoddiad ar gyfer eich ffrindiau |
| Blynyddoedd: | CA2 |
| Cysylltiad â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | **Trefnu syniadau a gwybodaeth:**<br>***Ystyr, dibenion, darllenwyr:**<br>Bl3:<br>• ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb<br>Bl4:<br>• addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darllenydd, gan ddewis geiriau'n addas<br>Bl5:<br>• ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darllenydd<br>Bl6:<br>• addasu arddull ysgrifennu i'r darllenydd a'r diben<br><br>***Strwythur a threfn:**<br>Bl3:<br>• defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu<br>Bl4:<br>• defnyddio strwythur penodol wrth ysgrifennu<br>Bl5:<br>• defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu<br>Bl6:<br>• addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol<br><br>**Ysgrifennu'n gywir**:<br>***Iaith:**<br>Bl3/4/5/6: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu gan gynnwys Cymraeg safonol |
| Offer angenrheidiol: | • Cyflwyniad PowerPoint 'KS2_Activity1_Kardomah Gang_Cym'<br>• Esiamplau o wahoddiadau |
| Dull: | • Adolygwch y wybodaeth am y 'Kardomah Gang' gyda'r dysgwyr gan ddefnyddio'r cyflwyniad PowerPoint.<br>• Dangoswch esiamplau o wahoddiadau.<br>• Trafodwch pa wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer creu gwahoddiad da.<br>• Gofynnwch iddynt feddwl am greu gwahoddiad ar gyfer pobl enwog i ddod i'r caffi.<br>• Ewch ati i greu rhestr ddosbarth o'r wybodaeth fydd ei |

| | |
|---|---|
| | hangen yn eu gwahoddiad. Gellid cynnwys ...<br>○ Pwy sy'n gwahodd y gwesteion?<br>○ Pwy sy'n cael eu gwahodd?<br>○ A fyddant yn dod i gael diod neu a fyddant yn cael pryd o fwyd?<br>○ Ble bydd y digwyddiad? (Gallai fod yn lle go iawn neu'n un dychmygol)<br>○ Pryd bydd y digwyddiad?<br>○ I ble/At bwy ddylai pobl anfon eu hatebion?<br>○ Pa ddillad ddylai pobl eu gwisgo?<br>○ A fydd y gwahoddiad yn cynnwys lluniau?<br>○ Sut byddant yn strwythuro'r gwahoddiad? |
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gellid defnyddio rhaglen gyfrifiadurol i ddylunio'r gwahoddiad. |
| Dolenni perthnasol: | Amherthnasol |
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Gallai dysgwyr llai galluog ddefnyddio'r templed KS2_Activity2_Invitation)_Cym<br><br>Gallai dysgwyr hŷn ysgrifennu llythyr yn hytrach na chreu gwahoddiad. |